# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 11/11/2025

Presennol: Heulwen Parry, Meredydd Williams, Gareth Jones, Elfed Roberts , Eirian Hoyle

1. Ymddiheuriadau: Francesca Williams, Rebecca Phasey, Eurwyn Jones

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: EH, eR

2a. Datgan Diddordeb: Heulwen Parry i pwynt 3.680

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.673 Cyfarfod wedi ei drefnu gyda Steffan Jones ar yr 21ain o Dachwedd

3.674 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – ER i drefnu cyfarfod gyda A Murray / Grŵp Cynefin, cadw mlaen,

3.675 Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts ac Eurwyn Jones wedi cyfarfod gyda Gerwyn Jones ac wedi ei wahodd i gyfarfod nesaf y cyngor ar yr 13eg o Ionawr.

3.676 'Sovereign' – cytunwyd i dalu £199 er mwyn cael archwiliad manwl o'r cylchfan. Clerc i ofyn am anfoneb a threfnu dyddiad i'w archwilio.

3.677 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost - Clerc i dwysau'r pryder gan gysylltu gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

3.678 Sedd wag – dim diddordeb wedi ei ddangos, cadw mlaen.

3.679 Arwyddion Gellilydan – clerc i ail-gysylltu gyda awgrymiadau o arwyddion yn y lleoliadau canlynol:

- Cyn y pant cyn cyrraedd Penglannau, ac ar ôl Penglannau.
- Mynedfa am Nant y March ar gychwyn yr allt.
- Gwaelod yr allt o ffordd Maentwrog am y Pwerdy.

3.680 Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda Owain Aeron i drafod y gwaith atgyweirio i'r ffens.

3.681 Hen Bôst, Gellilydan – ER am gysylltu a Thîm Tacluso Bro.

3.682 Tir dros ffordd i Tan y Foel – Ymateb wedi ei dderbyn gan Chyfoeth Naturiol Cymru

***Nid ydym yn rhoi adborth unigol ar ein hymateb i adroddiadau am ddigwyddiadau posibl, torri rheoliadau neu weithgarwch troseddol, nac ar ganlyniad y rhain. Mae hyn er mwyn inni allu canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu gwasanaeth digwyddiadau a rheoleiddio effeithiol a chosteffeithiol, er mwyn amddiffyn yr amgylchedd a phobl Cymru.***

***Rydym yn gwerthfawrogi'r adroddiadau sy'n dod i law yn fawr iawn a hoffem ddiolch i chi am roi o'ch amser i adrodd eich arsylwadau i ni. Mae'r adroddiadau hyn yn hanfodol i'n galluogi i nodi ac ymdrin ag effeithiau digwyddiadau, torri rheoliadau a gweithgarwch troseddol, ac maent yn rhoi gwybodaeth werthfawr i gefnogi ein gwaith o ran atal digwyddiadau, cydymffurfio â rheoliadau a gorfodi.***

Clerc i ail-gysylltu i ofyn am ymateb ddealladwy! Cadw mlaen.

11/01/26

3.683 Gelli Dywyll – Pryderdon ynghylch hen dŷ sy'n ymddangos fel pe bai mewn perygl o gael ei ddymchwel – ymateb wedi ei dderbyn gan y Parc:

Ymhellach i'ch e-bost y cynnwys sydd wedi ei nodi ynglŷn â'r uchod, mae'r Awdurdod wedi derbyn cais i ddymchwel cyn dy ac adeiladu tŷ newydd. Ar hyn o bryd mae'r cais yn anghyflawn yn disgwyl gwybodaeth bellach. Pryd cofrestrir y cais mi fydd y Cyngor Cymuned yn cael ei ymgynghori yn y ffordd arferol.

Ail gysylltu a Philip Hobson am adroddiad manwl. Elfed Roberts am gysylltu a Ceri Sweeney.

3.684 Sûl y Cofio – Trafod cyfarfod blynyddol - Cadeirydd ac un aelod o'r cyngor i osod y dorch.

3.685 – Torri coed – Gofeb – Meredydd Williams am gysylltu a Ben o Hoschief.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.288 Pen y Bont (ar gyffordd y ffordd mewn i'r pentref) gordyfiant wedi chwalu y ffens.

4.289 Llwybrau – trafod cyfarfod nesaf.

<u>5. Ariannol</u>

5.213 Cyfrif Cadw: £229.05

5.214 Cyfrif Cyfredol: £5978.90

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.215 Ambiwlans Awyr - £50.00

5.216 Cyngor Gwynedd £750.00

5.217 British Legion: £19.99

5.218 Un Llais - £142.00

5.219 C Jones - £576.00

5.220 HMRC - £144.00

5.221 C Jones (costau) - £168.00

5.222 Designer Signs - £697.19

<u>6. Cynllunio</u>

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol:

6.772 NP5/73/LB317L Porth Gwyn, Maentwrog – Rhyddhau amod rhif 5 – palmant allanol.

<u>7. Gohebiaeth</u>

290 National Grid – Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Thrawsfynyddanfo

291 HSBC - gofyn am wybodaeth cynghorwr G Jones

HP 11/01/26

292 Ambiwlans Awyr Cymru

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Grŵp Rhanddeilliaid Safle Trawsfynydd – dathlu 20 mlynedd - Adroddiad ar lafar gan Meredydd Williams

9. Mynwent Dwyryd

9.83 Cyfrif y Fynwent: £22130.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.84 Richard Jones - £250.00

9.85 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix – (cadw mlaen).

9.86 Lle parcio Mynwent Dwyryd – Cynllun i'w anfon allan gan Elfed Roberts, os dim gwrthwynebiad o fewn 3 wythnos, y cunllun i'w anfon ymlaen i'r Eglwys yng Nghymru a'r ymgymerwyr.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

13eg o Ionawr, 2026 am 6.00 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan.

Trafodaeth i ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.

HP 11/01/26